
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 602 (Cy. 127)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**Gorchymyn Pysgota Môr
(Hysbysiadau Cosb) (Cymru)
(Diwygio) 2019**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/363 (Cy. 86)) er mwyn cywiro gwall sy'n ymwneud â chymhwyso'r offeryn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2019 Rhif 602 (Cy. 127)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**Gorchymyn Pysgota Môr
(Hysbysiadau Cosb) (Cymru)
(Diwygio) 2019**

Gwnaed 18 Mawrth 2019

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 19 Mawrth 2019

Yn dod i rym 21 Mawrth 2019

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 30(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981(1) a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2) ac adrannau 294 a 316(1)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(3), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, cymhwyso, dehongli a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019.

-
- (1) 1981 p. 29 (“Deddf 1981”); gweler adran 30(3) i gael y diffiniad o “the Ministers”.
- (2) Cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 30 o Ddeddf 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'u trosglwyddo wedyn o'r corff hwnnw i Weinidogion Cymru; gweler erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Cafodd swyddogaethau'r Gweinidogion o dan adran 30 o Ddeddf 1981, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran parth Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan erthygl 4(1)(e) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760). Cafodd y swyddogaethau hynny eu trosglwyddo ymhellach, ar sail gydeddol, o ran cychod pysgota Cymru y tu hwnt i derfyn parth Cymru tua'r môr gan adran 59A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 2(1) o Atodlen 3A iddi.
- (3) 2009 p. 23; gweler adran 294(8) i gael y diffiniad o “the appropriate national authority”.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a pharth Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" ac mae i "parth Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh zone" gan adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1).

(4) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mawrth 2019.

Diwygio Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

2.—(1) Mae Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 1 (enwi, cychwyn a chymhwys), yn lle paragraff (3) rhodder—

“(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a pharth Cymru.”

(3) Yn erthygl 2 (dehongli), yn y manau priodol, mewnosoder—

“mae i “Cymru” yr un ystyr ag a roddir i “Wales” yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;”;

“mae i “parth Cymru” yr un ystyr ag a roddir i “the Welsh zone” yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;”.

Lesley Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig,
un o Weinidogion Cymru
18 Mawrth 2019

(1) 2006 p. 32; mae diwygiadau i adran 158 nad ydynt yn berthnasol i'r diffiniad hwn. At ddibenion y diffiniad o "Wales" yn adran 158(1), y ffin rhwng y rhannau hynny o'r môr o fewn Aberoedd Hafren a Dyfrdwy sydd i'w trin fel rhai sy'n gyfagos i Gymru a'r rhai nad ydynt i'w trin felly yw, ym mhob achos, linell a dynnir rhwng y cyfesurynnau a nodir yn Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 26 o Atodlen 11 iddi, mae O.S. 1999/672 yn parhau i gael effaith. Mewnosodwyd y diffiniad o "Welsh zone" yn adran 158(1) gan adran 43(2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Pennir parth Cymru yng Ngorchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010.

(2) O.S. 2019/363 (Cy. 86).